

## 605.01 PAM GWNEUD COMPOST O DAIL BUARTH?

Pan mae tail buarth yn cael ei storio mae newidiadau yn ei gyfansoddiad cemegol o ganlyniad i drwytholchi a cholli nwyon. Wrth chwalu tail buarth ffres, bydd colli maetholion yn gostwng ei werth fel gwrtaith a gall lygru'r amgylchedd. Nid yw gwneud compost mewn ffordd effeithiol yn golygu gadael y domen i 'bydru', mae angen darparu amodau sy'n hyrwyddo datodiad deunydd organig.

Mae manteision gwneud compost effeithiol, o'i gymharu gyda chwalu tail buarth ffres, yn cynnwys:

- Gall ladd hadau chwyn.
- Yn gostwng cyfaint y tail buarth o hyd at 50%.
- Yn lleihau pathogenau ac arogleuon.
- Yn haws ac yn rhatach i'w chwalu a'i ymgorffori yn y dywarchen.
- Llai o berygl o halogi'r cnwd.
- Cyflyrydd pridd da: yn fwy effeithiol na Thail Buarth.
- Ffynhonnell DO a maetholion.
- Yn lleihau'r risg o lygru cyrsiau dŵr.
- Yn fwy cyfoethog o ran maetholion.

Mae gwneud compost yn rhan o'r drefn ail-gylchu maetholion ar y fferm. Mae yn allweddol i ffermio organig ond gellir ei ddefnyddio yn effeithiol ar ffermydd da byw confensiynol.

### Beth yw gwneud compost?

Mae microbau yn bwydo ar ddeunydd organig ac yn pydru gan ollwng gwres, carbon deuocsid a dŵr. Mae hyn yn newid y planhigyn gwreiddiol a'r deunydd anifail i lysieubridd sefydlog gyda llai o gyfaint, ac mae'r gymhareb Carbon i Nitrogen (C:N) yn llai a daw yn gyflyrydd pridd delfrydol.

### Sut i wneud compost

Er mwyn i'r microbau compost weithio'n dda mae hi'n hanfodol cael cyflenwad cyson o aer a lleithder a maetholion ddaw o dail a deunydd swmpus eraill fel gwellt.

Dylid ei droi'n rheolaidd i gyrraedd y tymheredd optimwm (70°C) gan ychwanegu dŵr os yw'r domen yn mynd yn sych.

Gorchuddiwch y domen rhag y glaw i leihau dŵr ffo ac i beidio colli maetholion.

Os yw'n cael ei gadw mewn cae, defnyddiwch domenni siâp rhenciau i wella cymhareb arwynebedd y wyneb i'r cyfaint er mwyn gwneud compost effeithiol ac i adael i ddŵr ffo redeg oddi ar y domen.

Mae'n haws gwneud compost o rai deunyddiau na'i gilydd. Gall y rhai sydd â deunydd carbon uchel (C) fel deunyddiau pren, atal eplesu a 'chloi'r' nitrogen (N) yn y tail, ac wedi ei chwalu ar briddoedd. Tail buarth o wartheg yw'r hawsaf i'w wneud yn gompost oherwydd y gymhareb C:N, mandylledd, ei gynnwys lleithder a gwerth maetholion.

### Lleoli'r Domen Gompost

Os nad yw'r tail yn cael ei droi yn gompost yn y sied da byw, dylid archwilio'r codau pridd a dŵr a'r rheolau trawsgydymffurfio i sicrhau na fydd dŵr ffo o'r domen yn mynd i gyrsiau dŵr - cofiwch fod dŵr ffo o domenni tail yn cynnwys maetholion gwerthfawr.

Mae compost yn amrywio ac yn dibynnu ar y math o dda byw, a'r math a swm o wasarn

#### Dadansoddiad Tail:

	DS(%)	N kg/t	cynnyrch L/dydd	cymhareb C:N
Slyri Bwch	6	3	53	20
Tail Buarth	25	25	63	25
Defaid	60	10	n/a	20
Hwch	6	7	7	16
Dofednod (1000)	30	16	115	0.1

#### Deunydd Gwasarn:

	N%	ratio C:N	
Gwellt	0.7	80	*Mae gan bob math o wasarn gymhareb C:N uwch na thail
Llwch lli	0.24	442	* Pridd mae'r C:N yn 10 i 12.1. Mae Microbau angen y ddau;
Gwair	1.3	32	C am egni N am brotein ac i atgenhedlu
Tail Buarth	3.5	25	* C:N uchel --> N wedi ei gloi
Rhisgl coed	0.14	500	* C:N isel --> N yn cael ei golli fel amonia ac ocsid nitraidd

#### Gwerth y Compost

Mae gwerth y compost nid yn unig yn y maetholion fel N, P a K, ond oherwydd bod cynnwys llysiubridd y deunydd pridd organig yn uwch. Dim ond ychydig o 'werthoedd safonol' sydd, felly gall dadansoddiadau labordy o gompost fod yn ganllaw defnyddiol ar gyfer y maetholion sy'n cael eu rhoi ar y tir o'r compost.

Gwerthoedd gwrteithiau o ffermydd arddangos organig yng Nghymru gyda gwasarnau compost gwahanol:

	Rhedyn	Brwyn	Gwellt Std (gwartheg)
pH	9.2	8.9	
D%	24	20.7	25
Cyf. N	3.86	4.10	5.9
Cyf. P	1.5	1.8	3.1
Cyf. K	8.1	4.9	6.6
Cyf. Mg	1.1	1.1	1.6
Cyf. S	0.69	0.54	2.3

#### Tail Ffres neu wedi ei droi yn gompost?

Ystyriwch:-

**Defnydd** - bydd compost gyda chymhareb C:N is yn llai niweidiol i fywyd y pridd a bydd y llysiubridd sefydlog ynddo yn uwch OND bydd gan dail ffres fwy o faetholion ar gael, yn ychwanegu mwy o ddeunydd organig ond gallai greu diffyg N ble mae N pridd yn isel, bydd yn 40% yn fwy o ran cyfaint ac yn costio mwy i'w symud a'i chwalu

**Math o bridd** – bydd priddoedd gyda lefelau deunydd organig isel neu wead ysgafn (tywodlyd) yn cael budd o dail sydd wedi ei droi yn gompost da.

**Lleoliad** – dylech sicrhau fod safle addas i gadw a gwneud compost; os nad oes, yna'r unig ddewis yw ei chwalu yn syth o'r sied

**Cadw o dan do** – os yw'r tail yn rhy wlyb, neu os yw ar ffurf slyri, nid yw ei droi'n gompost yn ddewis.

#### RHAGOR O WYBODAETH

Ffoniwch: IGER, Canolfan Datblygu Tir Glas: 01970 823026

Ebost: [gttp.iger@bbsrc.ac.uk](mailto:gttp.iger@bbsrc.ac.uk), Gwefan: <http://www.iger.bbsrc.ac.uk>

#### Tafleini Gwybodaeth Eraill

604.01 – Cynnwys Maetholion Slyri a Thail

Rheoli pridd a maetholion ar ffermydd organig (ADAS/IGER/HDRA)

Caiff y Ganolfan Datblygu Tir Glas, sy'n seiledig yn IGER, ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswllt Ffermio. - GDC/IGER, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB  
- Dr Heather McCalman,, Tel: 01970 823026/823058.

